Multi Agency Public Protection Arrangements

# DYFED POWYS



# Adroddiad Blynyddol 2020-21

# Cyflwyniad

Rydym yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol MAPPA 2020/21 ar gyfer Bwrdd Rheoli Strategol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) Dyfed Powys.

Mae 2021 wedi bod yn flwyddyn heriol arall gyda pharhad pandemig byd-eang COVID-19 a'r effaith mae hyn wedi'i chael ar ein cymunedau a'r ffordd rydym yn gweithio. Mae wedi effeithio ar lawer o sefydliadau ac, o ganlyniad, mae wedi arwain at newidiadau yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynnal. Fodd bynnag, nid yw'r cyfnod digynsail hwn wedi effeithio ar effeithiolrwydd MAPPA. Mae hyn oherwydd ymrwymiad pob sefydliad sy'n ymwneud â'r gwaith o sicrhau mai diogelu'r cyhoedd yw ein prif flaenoriaeth i gadw ein cymunedau'n ddiogel.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith mae'r Bwrdd Rheoli Strategol wedi'i wneud i wella effeithiolrwydd MAPPA yn ystod y flwyddyn o ran rheoli troseddwyr rhyw a threisgar er mwyn lleihau aildroseddu a diogelu'r cyhoedd. Mae hefyd yn gyfle i ni ddangos ein hatebolrwydd i'r cymunedau lleol rydym yn eu gwasanaethu.

Mae diogelu'r cyhoedd yn hanfodol i Awdurdod Cyfrifol MAPPA (yr Heddlu, Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) ac mae popeth rydym yn ei wneud yn canolbwyntio ar sicrhau diogelwch parhaus ein cymunedau. Cefnogir hyn gan gyfraniad gwerthfawr y Ddyletswydd i Gydweithredu ac asiantaethau eraill. Mae troseddau rhywiol a threisgar yn ganran fechan o'r troseddau y mae'r pedair cwnstabliaeth ledled Cymru yn ymdrin â nhw. Fodd bynnag, mae'r effaith ddinistriol y mae'r digwyddiadau hyn yn ei chael ar ddioddefwyr a chymunedau yn enfawr. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd bod gwaith yn parhau 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos i ddiogelu'r cymunedau rydym yn byw ynddynt.

Nid yw byth yn bosibl dileu'n llwyr y risgiau a achosir gan droseddwyr difrifol. Fodd bynnag, yr hyn y gellir ei ddisgwyl yw bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i leihau'r risg o niwed difrifol i'r cyhoedd gan droseddwyr hysbys ac i hybu adsefydlu. Felly, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ystadegol am y rhai sydd wedi cael eu rheoli dan MAPPA yn ystod y flwyddyn fusnes ddiwethaf ac mae'n darparu gwybodaeth am sut mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n ymarferol yn lleol.

Gwelwyd datblygiadau sylweddol yn dilyn adolygiad annibynnol o ddulliau rheoli unigolion sy'n gysylltiedig â gwrthderfysgaeth. Oherwydd hynny, mae'r Gwasanaeth Prawf wedi creu Adran Diogelwch Gwladol arbenigol, ymroddedig a medrus iawn a fydd yn darparu lefel uwch o reolaeth ac ymyrraeth ar gyfer y troseddwyr mwyaf risg uchel, cymhleth ac uchel eu proffil yn y gymuned. Bydd staff arbenigol yn cyflwyno cyfres fanylach o safonau cenedlaethol i'r gwaith o reoli troseddwyr terfysgol, troseddwyr cyfundrefnol difrifol ac achosion amddiffyn y cyhoedd difrifol eraill. Bydd MAPPA yn allweddol i reolaeth aml-asiantaethol unigolion yn y garfan hon.

Mae llwyddiannau'r Bwrdd Rheoli Strategol yn adlewyrchu'r cyfraniadau sylweddol a wnaed gan yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â MAPPA ledled Dyfed Powys a hoffem ddiolch i'n holl bartneriaid sydd wedi cyfrannu at y trefniadau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyd a lled y profiad a'r arbenigedd o ran rheoli achosion MAPPA yn eithriadol ac nid oes amheuaeth o'r ymrwymiad mae asiantaethau'n ei ddangos i gyrraedd y safonau uchaf. Rydym hefyd yn hyderus bod yr adroddiad hwn yn dangos ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein staff nad yw eu gwaith anodd a chymhleth yn aml yn derbyn sylw cyhoeddus. Mae eu hymroddiad yn allweddol i sicrhau bod ein cymunedau'n aros yn ddiogel.

Wrth argymell yr adroddiad hwn i chi, rydym yn gobeithio y bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar ein gwaith ac yn rhoi sicrwydd mai diogelu'r cyhoedd ac anghenion dioddefwyr yw ein prif flaenoriaethau o hyd.



Nicola Davies,
Cyfarwyddwr Isadrannol Cymru
Y Gwasanaeth Prawf


**<u>Neges gan y Prif Gwnstabl Dros Dro Claire Parmenter</u>**



Mae diogelu'r cyhoedd rhag troseddau treisgar a rhywiol yn parhau i fod yn un o'r blaenoriaethau uchaf ar gyfer partneriaid ar draws rhanbarth Dyfed Powys.
Mae cydweithio drwy Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) i reoli troseddwyr a geir yn euog o droseddau o'r fath yn hollbwysig. Mae'r troseddau y mae'r troseddwyr hyn yn gyfrifol amdanynt yn effeithio'n fawr ar fywydau dioddefwyr, eu ffrindiau a'u teuluoedd a gallant, yn eu tro, achosi ofn mewn cymunedau lleol. Rwyf yn falch bod yr adroddiad hwn yn egluro sut mae gwahanol asiantaethau cysylltiedig yn gweithio gyda'i gilydd, sut mae'r trefniadau'n gweithio yn Nyfed Powys a pha gamau a gymerir i'w gwneud yn fwy effeithiol.

Rwy'n cydnabod pryder y cyhoedd am bobl a allai beri risg o achosi niwed sylweddol ac rwy'n credu'n gryf mai MAPPA yw'r fframwaith gorau posibl ar gyfer y bobl hyn.

Fe wnaeth y cyfyngiadau symud cenedlaethol a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020 o ganlyniad i bandemig COVID-19 greu nifer o heriau i dîm MAPPA. Wrth i ni edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod, rydym yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys cyflwyno digwyddiadau hyfforddi MAPPA ar-lein, ac rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar unwaith eto at allu dychwelyd i gyflawni sawl agwedd ar ein gwaith mewn amgylchedd wyneb yn wyneb.



Prif Gwnstabl Dros Dro Claire Parmenter
Heddlu Dyfed Powys

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

Cyfres o drefniadau yw MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) i reoli'r risg a gyflwynir gan y troseddwyr rhyw, terfysgaeth a threisgar gwaethaf (troseddwyr cymwys am MAPPA) o dan ddarpariaethau rhannau 325 i 327B o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Mae'n dod â'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai ym mhob un o'r 42 o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr o dan gorff sy'n cael ei alw'n Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae gan nifer o asiantaethau eraill Ddyletswydd i Gydweithredu (DTC) â'r Awdurdod Cyfrifol. Maent yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd, Timau Troseddwyr Ifanc, Y Ganolfan Byd Gwaith a'r Awdurdodau Addysg a Thai Lleol.

Y Byrddau Rheoli Strategol Lleol sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol ac asiantaethau DTC sy'n gyfrifol am gyflwyno MAPPA yn eu hardaloedd. Mae'n ofynnol hefyd i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Gynghorydd Lleyg i eistedd ar Fwrdd Rheoli Strategol (BRhS) pob ardal MAPPA.

Mae'r Cynghorwyr Lleyg yn aelodau o'r cyhoedd a benodir gan y Gweinidog, sydd heb unrhyw gysylltiad â'r busnes o reoli troseddwyr MAPPA ac sy'n gweithredu fel arsylwyr annibynnol ond gwybodus; medrant ofyn cwestiynau na fyddai staff proffesiynol yn gweithio yn y maes efallai'n meddwl eu gofyn. Maent hefyd yn cyfrannu eu dealltwriaeth a'u persbectif ar y gymuned leol at y Bwrdd Rheoli Strategol (mae'n rhaid bod ganddynt gysylltiadau cryf â'r gymuned leol a'u bod yn byw yno).

## Sut mae MAPPA yn gweithio

Mae troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA yn cael eu pennu ac mae gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau fel sail i asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y bobl sy'n eu rheoli neu eu goruchwylio.

Dyna gyn belled ag y mae MAPPA yn mynd yn y rhan fwyaf o achosion. Ond, mewn rhai achosion, mae angen goruchwyliaeth ar lefel uwch a rheolaeth amlasiantaethol strwythuredig. Mewn achosion o'r fath, bydd ymarferwyr yr asiantaethau perthnasol yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd MAPPA.

Mae tri chategori o droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA:

- **Categori 1** – troseddwyr rhyw cofrestredig;
- **Categori 2** – troseddwyr treisgar yn bennaf sydd wedi eu dedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar neu i orchymyn ysbyty; a
- **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan gategori 1 na 2 ond sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol ar y pryd.

Mae tair lefel o reolaeth i sicrhau bod yr adnoddau'n canolbwyntio ar yr achosion lle mae eu hangen fwyaf; fel arfer, y rheini sy'n peri risg uwch o niwed difrifol.

- **Lefel 1** yw lle mae'r troseddwr yn cael ei reoli gan y brif asiantaeth drwy gyfnewid gwybodaeth a darparu cymorth aml-asiantaeth yn ôl yr angen ond heb gyfarfodydd MAPPA ffurfiol;
- **Lefel 2** yw lle mae angen cyfarfodydd MAPPA ffurfiol i reoli'r troseddwr.
- **Lefel 3** yw lle mae'r cynlluniau rheoli risg yn gofyn am bresenoldeb ac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch mewn cyfarfodydd MAPPA.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR. System Technoleg Gwybodaeth genedlaethol yw hon i helpu i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno risg ddifrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae defnyddio ViSOR yn ei gwneud yn haws rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau a throsglwyddo gwybodaeth allweddol yn ddiogel pan fydd troseddwyr risg uchel yn symud, gan wella unrhyw fesurau diogelu'r cyhoedd. Mae ViSOR yn golygu bod staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a Charchardai'n gallu gweithio ar yr un system TG am y

tro cyntaf, gan wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau risg ac ymyriadau i atal troseddu.

## MAPPA a Therfysgaeth

Mewn ymateb i'r ymosodiad terfysgol a gyflawnwyd gan Usman Khan yn Neuadd Fishmongers ar 29 Tachwedd 2019, cafodd Jonathan Hall CF, sef Adolygwr Annibynnol y Ddeddfwriaeth Terfysgaeth, ei gomisiynu gan yr Ysgrifennydd Cartref a'r Arglwydd Ganghellor i gynnal adolygiad o MAPPA a dulliau rheoli terfysgwyr hysbys a throseddwyr eithafol eraill (Troseddwyr TACT). Roedd yr ymosodiad terfysgol a gyflawnwyd gan Sudesh Amman yn Streatham High Road ar 2 Chwefror 2020 yn atgyfnerthu'r angen am adolygiad, gan fod Khan ac Amman wedi cael eu rheoli dan MAPPA. Cyhoeddodd y llywodraeth yr adroddiad ar 2 Medi 2020 a chyhoeddodd ymateb iddo ar 9 Rhagfyr. Mae'r ddwy ddogfen ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/multi-agency-public-protection-arrangements-review. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion, ac mae nifer ohonynt wedi cael eu rhoi ar waith drwy Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Dedfrydu 2021 a Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd. Mae argymhellion eraill eisoes wedi cael eu cyflwyno drwy greu Adran Diogelwch Gwladol yn y Gwasanaeth Prawf i reoli troseddwyr terfysgol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi diwygio Canllawiau statudol MAPPA ar droseddwyr terfysgol.

Mae'r Gwasanaeth Prawf, drwy'r NSD, wedi creu gweithlu arbenigol ymroddedig a medrus, sy'n darparu lefel uwch o reolaeth ac ymyrraeth ar gyfer y troseddwyr mwyaf risg uchel, cymhleth ac uchel eu proffil yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys rheoli troseddwyr sy'n gysylltiedig â therfysgaeth a throseddwyr sy'n peri risg o derfysgaeth. Mae pum uned diogelwch gwladol wedi cael eu sefydlu gan y Gwasanaeth Prawf ledled Cymru a Lloegr yn ystod 2020/21. Bydd yr NSD a Phlismona Gwrthderfysgaeth yn gweithio'n agos gyda Byrddau Rheoli Strategol lleol i sicrhau bod achosion o derfysgaeth yn cael eu rheoli'n gadarn. Mae'r NSD hefyd yn rheoli troseddau cyfundrefnol difrifol ac achosion diogelu'r cyhoedd mwyaf risg uchel ac uchel eu proffil.

Mae holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn: www.gov.uk

# Ystadegau MAPPA

| Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA ar 31 Mawrth 2021 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 561 | 125 | - | 686 |
| Lefel 2 | 1 | 2 | 7 | 10 |
| Lefel 3 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 562 | 127 | 8 | 697 |

| Troseddwyr cymwys am MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 22 | 18 | 21 | 61 |
| Lefel 3 | 6 | 0 | 2 | 8 |
| Cyfanswm | 28 | 18 | 23 | 69 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr rhyw cofrestredig (RSO) a gafodd rybudd neu euogfarn am dorri gofynion hysbysu** | 11 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr RSO lle penderfynwyd diddymu eu gofyniad hysbysu gydol oes drwy wneud cais** | 4 |

| Gorchmynion cyfyngu ar gyfer troseddwyr Categori 1 | |
|---|---|
| **Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO), Gorchmynion SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor a Gorchmynion Hysbysu a osodir gan y llysoedd** | |
| SHPO | 54 |
| SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor | 0 |
| Gorchmynion Hysbysu (NO) | 0 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu'n dilyn torri Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO)** | 0 |

| **Troseddwyr Lefel 2 a 3 wedi eu dychwelyd i'r carchar** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 6 | 2 | 5 | 13 |
| Lefel 3 | 2 | 1 | 0 | 3 |
| Cyfanswm | 8 | 3 | 5 | 16 |
| **Torri SOPO** | | | | |
| Lefel 2 | 3 | - | - | 3 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 3 | - | - | 3 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o bobl** | 119 |

Mae'r ffigur hwn wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020: Oedran a rhyw ar gyfer Ardaloedd yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr fesul blwyddyn; amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac eithrio plant dan ddeg oed.

# Esboniad o'r tablau ystadegol

## Cefndir MAPPA

Mae cyfanswm y troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2021 (hy, maent yn rhoi cipolwg). Mae gweddill y data yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

**(a) Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA** – mae nifer o droseddwyr yn gymwys ar gyfer trefniadau rheoli MAPPA yn ôl y diffiniad cyfreithiol oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw a threisgar penodol, neu oherwydd eu bod yn achosi risg o niwed difrifol, er bod y rhan fwyaf yn cael eu rheoli ar Lefel 1 yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPPA. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys dim ond y troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA ac sy'n byw yn y gymuned. Nid ydynt yn cynnwys rhai sydd yn y carchar neu dan glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**(b) Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (RSO)** – sef y rhai sydd angen hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw, cyfeiriad a manylion personol eraill a rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau sy'n digwydd wedyn (sef y "gofyniad hysbysu"). Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan yr heddlu. Gallant hefyd gael eu rheoli gan y gwasanaeth prawf neu'r gwasanaeth iechyd os ydynt yn destun trwydded neu orchymyn ysbyty. Mae methu â chydymffurfio â'r gofyniad hysbysu'n drosedd sy'n arwain at uchafswm cosb o bum mlynedd yn y carchar.

**(c) Troseddwyr Treisgar –** mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar a ddedfrydwyd i garchar neu i'w cadw dan glo am 12 mis neu fwy, neu i'w cadw o dan orchymyn ysbyty. Mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys i gael eu cofrestru. Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan y Gwasanaeth Prawf, y Tîm Troseddwyr Ifanc neu'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

**(d) Troseddwyr Peryglus Eraill** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan y ddau gategori cymwys ar gyfer MAPPA eraill ond sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol sydd angen ei reoli drwy gyfarfodydd MAPPA. Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan ba bynnag asiantaeth sy'n bennaf gyfrifol amdanynt.

**(e) Torri trwydded** – bydd troseddwyr sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned ar ôl cyfnod yn y carchar yn cael eu rhoi ar drwydded gydag amodau (o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os na chydymffurfir â'r amodau hyn, cymerir camau tor-amod a gallai'r troseddwr gael ei alw'n ôl i'r carchar.

**(f) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar fynd dramor).** Mae Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a Gorchmynion SHPO interim wedi disodli'r hen Orchmynion Atal Troseddau Rhywiol. Eu pwrpas yw gwarchod y cyhoedd rhag troseddwyr a gafwyd yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar, ac sy'n cyflwyno risg o niwed rhywiol i'r cyhoedd, drwy osod cyfyngiadau ar eu hymddygiad. Maent yn gofyn bod y troseddwr yn rhoi ei fanylion i'r heddlu (yn unol â Rhan 2 o Ddeddf 2003) drwy gydol cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i'r llys fod yn fodlon bod angen y gorchymyn i warchod y cyhoedd (neu unrhyw aelodau penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion agored i niwed (neu unrhyw blant neu oedolion agored i niwed penodol) dramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wneir ar gais annibynnol gan brif swyddog neu'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA), rhaid i'r prif swyddog / NCA ddangos bod y troseddwr wedi ymddwyn yn y fath fodd ers ei gael yn euog fel bod angen y gorchymyn.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw pum mlynedd. Yr isafswm oed yw deg, sef oed cyfrifoldeb troseddol, ond lle mae'r diffynnydd o dan 18 oed dylid ond ystyried cais am orchymyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**(G) Gorchymyn Hysbysu** – lle mae angen i droseddwyr rhyw a gafwyd yn euog dramor gofrestru â'r heddlu er mwyn diogelu'r cyhoedd yn y DU rhag y risg a gyflwynir ganddynt. Gall yr heddlu wneud cais i'r llys am orchymyn hysbysu ar gyfer troseddwyr sydd eisoes yn y DU neu sy'n bwriadu dod i'r DU.

**(h) Gorchymyn Risg Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar fynd dramor).** Mae'r Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO) wedi disodli'r Gorchymyn Risg o Niwed Rhywiol (RoSHO) a gallai gael ei wneud ar gyfer person sydd heb ei gael yn

euog o drosedd rywiol neu dreisgar (nac unrhyw drosedd arall) ond sy'n cyflwyno risg o niwed rhywiol.

Gall y SRO gael ei wneud mewn llys ynadon ar gais yr heddlu neu'r NCA lle mae unigolyn wedi cyflawni gweithred o natur rywiol ac mae'r llys yn fodlon bod y person yn cyflwyno risg o niwed i'r cyhoedd yn y DU neu i blant neu oedolion agored i niwed dramor.

Gall SRO wahardd person rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir yn y gorchymyn, gan gynnwys mynd dramor. Rhaid i unrhyw waharddiad fod yn angenrheidiol i warchod y cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol, neu yng nghyswllt mynd dramor, gwarchod plant neu oedolion agored i niwed rhag niwed rhywiol.

Mae'n ofynnol i unigolyn gyda SRO hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw a'u cyfeiriad cartref o fewn tri diwrnod i wneud y gorchymyn a hefyd rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth yma o fewn tri diwrnod.

Mae SRO yn gallu para am ddwy flynedd o leiaf ond heb unrhyw uchafswm, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau ar fynd dramor sy'n gallu, lle mae'n berthnasol, para am bum mlynedd ar y mwyaf (ond gall gael ei adnewyddu).

Mae'r safon droseddol o brawf yn parhau i fod yn berthnasol. Gall y person sy'n destun y gorchymyn apelio yn ei erbyn a gall yr heddlu neu'r person dan sylw wneud cais i amrywio, adnewyddu neu ollwng y gorchymyn.

Mae torri SRO yn drosedd a'r uchafswm cosb yw pum mlynedd yn y carchar. Lle mae unigolyn yn torri ei SRO, bydd yn dod yn destun gofynion hysbysu llawn.

Mae unigolion gyda SRO erbyn hyn yn cael eu cofnodi ar VISOR fel Person Peryglus Posib (PDP).

### (i) Diddymu gofynion hysbysu gydol oes drwy wneud cais

Mae her gyfreithiol yn 2010 ac ymateb deddfwriaethol o ganlyniad yn golygu bod trefniadau bellach yn eu lle sy'n gadael i droseddwyr rhyw cymwys wneud cais i adolygu eu gofynion hysbysu. Ni fydd pobl yn dod oddi ar y gofrestr yn awtomatig. Gall troseddwyr cymwys gyflwyno cais i'r heddlu adolygu eu gofynion hysbysu amhenodol. Bydd yr heddlu'n adolygu'r cais ac yn penderfynu a ddylid diddymu'r gofynion hysbysu. Gwneir y penderfyniad hwn ar lefel Uwch-arolygydd. Bydd pobl sy'n parhau i gyflwyno risg sylweddol yn aros ar y gofrestr am oes, lle bo angen.

Bydd unigolion ond yn dod yn gymwys i ofyn am adolygiad ar ôl bod yn destun gofynion hysbysu amhenodol am o leiaf 15 mlynedd yn achos oedolion, ac 8 mlynedd yn achos troseddwyr ifanc. Daeth hyn i rym o 1 Medi 2012 ymlaen ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion.

# Tudalen leol

## David Guiney Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol (BRhS)

Eleni cefais y pleser o gael fy mhenodi'n gadeirydd Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA  ar gyfer Rhanbarth Dyfed Powys, sy'n gyfrifol am oruchwylio'n strategol y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) ar draws ein hardal heddlu. Mae'r BRhS hefyd yn gyfrifol am graffu ar drefniadau o'r fath ar draws y rhanbarth, gan sicrhau bod ffocws parhaus ar y blaenoriaethau allweddol o ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed, atal dioddefwyr presennol rhag dioddef eto ac atal rhagor o ddioddefwyr.

Ni all MAPPA yn Nyfed Powys weithio'n effeithiol oni bai fod yr Awdurdod Cyfrifol ac asiantaethau Dyletswydd i Gydweithio i gyd yn parhau i gydweithio'n effeithiol ac mewn ysbryd o ddatrys problemau a gwella'n barhaus; er mwyn rheoli unigolion yn effeithiol dan MAPPA (troseddwyr rhyw, troseddwyr treisgar a throseddwyr peryglus eraill) a diogelu ein cymunedau rhag niwed.

Er gwaethaf yr heriau a ddaeth yn sgil y pandemig, mae'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd yn Nyfed Powys wedi parhau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r holl asiantaethau partner wedi dangos eu gallu i addasu i ffyrdd newydd o weithio ac wedi cynnal ymroddiad ac ymrwymiad diwyro i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Wrth i ni ddechrau dod allan o gyfyngiadau Covid, rwy'n teimlo ei bod yn amserol cydnabod yn gyhoeddus y proffesiynoldeb a'r cadernid a ddangoswyd gan y rheini sy'n gweithio yn MAPPA yn lleol yn ystod y flwyddyn heriol hon, a diolch iddynt am eu hymdrechion parhaus i'n cadw ni i gyd yn ddiogel.

## Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (GCPEM):

### Christine Harley, Pennaeth Uned Cyflawni Gwasanaeth Prawf Dyfed Powys – Gwasanaeth Prawf

Mae diogelu'r cyhoedd yn dal yn flaenoriaeth i Wasanaeth Carchardai a Phrawf (GCPEM) Dyfed Powys ac mae cymryd rhan yn y broses MAPPA ac ymgysylltu â'r Bwrdd Rheoli Strategol yn bwysig iawn.  Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi elwa o waith partneriaeth da gydag asiantaethau eraill wrth reoli unigolion MAPPA.

Dangosir hyn drwy ymrwymiad partneriaid i fynychu cyfarfodydd, a gynhelir weithiau'n fyr rybudd, i sicrhau bod gennym gynlluniau rheoli risg cadarn ar waith.

O ganlyniad i COVID, mae'r cyfarfodydd aml-asiantaeth wedi parhau i addasu i drefniadau gweithio o bell, ond rydym wedi gweld bod hyn wedi bod yr un mor effeithiol o ran rheoli unigolion MAPPA. Rydym wedi elwa o brosesau Sicrhau Ansawdd MAPPA a chyfarfodydd Cadeiryddion MAPPA i ddarparu cefnogaeth a chyfleoedd i drafod materion gweithredol ac i wella ymarfer. Mae gweithio'n agos a rhannu gwybodaeth rhwng ymarferwyr prawf yn y gymuned ac yn y carchar yn dal i fod yn flaenoriaeth, er mwyn rheoli ac ailsefydlu pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar yn effeithiol.

Mae GCPEM wedi cyfrannu at y broses Recriwtio Cynghorwyr Lleyg, wrth i gyfnod Cynghorydd Lleyg hirsefydlog ddod i ben; gyda Chynghorydd Lleyg newydd yn cael ei benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn fuan wedyn. Roedd hyn yn golygu bod modd dychwelyd yn gyflym at gael cyflenwad llawn o ddau Gynghorydd Lleyg MAPPA yn Nyfed Powys, gyda'r Cynghorydd Lleyg arall yn cael ei ailbenodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol am dymor arall.

## Jayne Butler, Ditectif Uwch-arolygydd, Heddlu Dyfed Powys

Mae'r newid digynsail a ddeilliodd o Bandemig Covid 19 dros y deunaw mis diwethaf wedi cyflwyno heriau a chyfleoedd fel ei gilydd i'r Heddlu a Phartneriaid, wrth reoli troseddwyr Rhyw a Threisgar. Roedd cynllunio busnes eithriadol ac wrth gefn a roddwyd ar waith yn brydlon yn sicrhau bod yr Heddlu a phartneriaid yn parhau i reoli'r troseddwyr hynny a oedd yn peri risg o niwed i'r gymuned, ac yn cyflawni dyletswyddau statudol a gofynion deddfwriaethol gan leihau unrhyw ledaeniad posibl o Covid-19.

Mae'r nodau hyn wedi cael eu gwella'n sylweddol drwy ddefnyddio technolegau digidol arloesol. Mewn ymateb i gais am gyllid digidol a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gartref a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i gefnogi'r gwaith o reoli 'troseddwyr a alluogwyd yn ddigidol', llwyddodd Heddlu Dyfed Powys i ddenu cymorth ariannol i brynu technoleg fforensig ddigidol. Mae'r cyllid hwn wedi rhoi cyfle i brynu technoleg hanfodol, gan alluogi Rheolwyr Troseddwyr i fynd i'r afael â throseddau digidol, lleihau'r risg o aildroseddu a rhyddhau capasiti i reoli'r rheini sy'n peri'r risg fwyaf o niwed.

Mae'r gwaith a wnaed ar gyfer Datganiad Rheoli'r Heddlu blynyddol (2021) yn rhagweld cynnydd yn nifer y troseddwyr a geir yn euog o droseddau rhyw, ac o ganlyniad, y twf parhaus cyfatebol yn nifer y troseddwyr a reolir dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd. O ganlyniad, mae adnoddau timau rheoli troseddwyr yn y dyfodol yn dal i gael eu hadolygu i sicrhau bod digon o gadernid i ymateb i'r galw cynyddol.

Mae'r gwaith o reoli troseddwyr yn cael ei gefnogi gan dimau plismona ym mhob Sir i wella gwaith swyddogion rheoli troseddwyr rhyw a threisgar (MOSOVO) er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gorchmynion cyfyngu, ac mae timau plismona yn y gymdogaeth yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi gwaith staff arbenigol o bob asiantaeth yn MAPPA. Mae hyn wedi arwain at lawer o ganlyniadau llwyddiannus, o ran atal troseddu pellach ac o ran canfod a mynd i'r afael ag achosion o dorri gorchmynion cyfyngu a gofynion hysbysu.

Mae Heddlu Dyfed Powys yn parhau i weithio gyda phartneriaid ac mae wedi ymrwymo i reoli Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd yn effeithiol er mwyn lleihau'r risgiau a gyflwynir yn y gymuned.

## Cynghorwyr Lleyg BRhS MAPPA Dyfed Powys

Lyn Hambidge a Neil Jenkins, Cynghorwyr Lleyg MAPPA Dyfed Powys

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld bod pob asiantaeth sy'n ymwneud â threfniadau MAPPA wedi wynebu heriau unigryw o ran cynnal cynlluniau rheoli risg cadarn yn wyneb pandemig Covid-19. Roedd yn galonogol gweld bod asiantaethau wedi ymateb i'r heriau a'u bod wedi addasu mewn ffyrdd gwahanol i leihau faint yr amharir ar y gwasanaeth a rheoli risg gymunedol.

Yn ystod y flwyddyn, bu newid yn nifer y Cynghorwyr Lleyg yn y rhanbarth. Mae Cynghorwyr Lleyg yn swyddi gwirfoddol gyda Chynghorwyr yn cael eu penodi am hyd at ddau dymor tair blynedd (6 blynedd i gyd). Daeth cyfnod un Cynghorydd Lleyg i ben ym mis Chwefror 2021 ac roeddem yn ddiolchgar bod y newid i sicrhau bod y cyfuniad o Gynghorwyr Lleyg yn cael ei gynnal yn ddi-dor, er gwaethaf heriau recriwtio rhithiol.

Fel Cynghorwyr Lleyg, cafodd ein mewnbwn yn ystod y flwyddyn ei gynnal gan ddefnyddio llwyfannau rhithiol, ac roeddem yn gallu parhau i ychwanegu gwerth at drefniadau gweithredol a strategol MAPPA yn y rhanbarth drwy:

- Fynychu cyfarfodydd BRhS MAPPA, rhoi adborth ar ein profiadau, cymryd rhan mewn trafodaethau a herio fel y bo'n briodol
- Mynychu Cyfarfodydd MAPPA Lefel 1, 2 a 3 ar draws y rhanbarth lle rydym wedi darparu her fel y bo'n briodol. Roeddem yn croesawu diwygio'r trefniadau ar gyfer rheoli achosion ar Lefel 1, lle'r oedd y gwasanaeth iechyd meddwl yn cymryd rhan ac rydym yn edrych ymlaen at weld effeithiau cadarnhaol hyn yn 2021/22.
- Mynychu cyfarfodydd y Grŵp Gweithredol i helpu i fonitro perfformiad yn erbyn Amcanion y Cynllun Busnes a chyfrannu at ddatrys problemau ar faterion allweddol, fel llety

- Cyfrannu at ddatblygu dadansoddiad o anghenion hyfforddi rhanbarthol. Mae cyflwyno hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar draws asiantaethau i'w groesawu er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson a datblygu dealltwriaeth ehangach o rôl a swyddogaeth MAPPA yn y gymuned.
- Rhoi adborth cyffredinol i Gydlynydd MAPPA

Roeddem yn awyddus i barhau i gymryd rhan mewn archwiliadau ffeiliau achos dienw, er nad oedd y prosesau hyn wedi cael eu cynnal fel digwyddiadau aml-asiantaeth yn ystod 2020, gyda Chydlynydd MAPPA yn parhau â'r dasg hon (oherwydd y pandemig). Cafodd y broses ei hadolygu yn gynnar yn 2021 gyda mewnbwn aml-asiantaeth a Chynghorydd Lleyg i'r archwiliadau yn ailddechrau ym mis Ebrill 2021.

Y llynedd, dywedasom mai'r her fwyaf ym mhob rhan o'r rhanbarth oedd argaeledd, a'r gallu i sicrhau, llety addas i droseddwyr. Rhaid i ni adrodd mai llety yw'r her fwyaf o hyd eleni; nid yw pethau wedi gwella, ac os unrhyw beth, mae'r newidiadau yn y marchnadoedd sy'n deillio o effaith y pandemig wedi dwysáu'r anawsterau o ran sicrhau llety yn y Sectorau Rhentu Preifat a Thai Cymdeithasol. Rhaid i'r ffocws ar geisio datrys y broblem llety gael ei gynnal yn ystod y flwyddyn i ddod, ar lefel strategol a gweithredol leol ac ar lefel genedlaethol ledled Cymru.

Manylion cyswllt Cydlynydd MAPPA Dyfed Powys:
Rebecca Lewis
Pencadlys Heddlu Dyfed Powys
Llangynnwr
Sir Gaerfyrddin SA31 2PF
MAPPA@dyfed-powys.pnn.police.uk

**Mae holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn:**

**www.gov.uk**

Probation Service

HM PRISON SERVICE

Heddlu Police DYFED-POWYS